



Termau Tribiwnlys y Gymraeg

Ceisydd (“ <i>applicant</i> ”)	Person sy’n gwneud cais i’r Tribiwnlys.
Cais (“ <i>application</i> ”)	(a) apêl i’r Tribiwnlys o dan adran 58, 95(2), 95(4) neu 99 o’r Mesur yn erbyn penderfyniad gan y Comisiynydd, neu (b) cais i’r Tribiwnlys o dan adran 103 o’r Mesur i adolygu penderfyniad gan y Comisiynydd.
Achos (“ <i>case</i> ”)	Trafodion sy’n ymwneud â chais i’r Tribiwnlys.
Datganiad achos” (“ <i>case statement</i> ”)	Datganiad sy’n cael ei gyflwyno’n unol â rheol 19, 20 neu 21.
Cyfnod datganiad achos (“ <i>case statement period</i> ”)	Y cyfnod sy’n cael ei bennu gan reol 18, 20 neu 21.
Cadeirydd (“ <i>Chair</i> ”)	Person sydd wedi cael ei benodi i gadeirio panel tribiwnlys o dan reol 9.
Comisiynydd (“ <i>Commissioner</i> ”)	Comisiynydd y Gymraeg.
Penderfyniad sy’n cael ei herio” (“ <i>disputed decision</i> ”)	Y penderfyniad, neu’r methiant i wneud penderfyniad, y mae’r cais wedi cael ei ddwyn mewn perthynas ag ef.
Dogfen” (“ <i>document</i> ”)	Unrhyw beth sydd â gwybodaeth o unrhyw ddisgrifiad wedi ei gofnodi ynddo.
Llofnod electronig (“ <i>electronic signature</i> ”)	Yr ystyr sy’n cael ei roi gan adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000.
Cyfeiriad e-bost” (“ <i>email address</i> ”)	Cyfeiriad post electronig personol y person hwnnw.
Tystiolaeth (“ <i>evidence</i> ”)	Deunydd o unrhyw ddisgrifiad, sy’n cael ei gofnodi ar unrhyw ffurf.
Gwrandawriad (“ <i>hearing</i> ”)	Gwrandawriad gerbron y Tribiwnlys at y diben o alluogi’r Llywydd, Cadeirydd neu banel tribiwnlys i gyrraedd

	<p>penderfyniad ar gais neu ar unrhyw gwestiwn neu fater, lle mae hawl gan y partïon i fod yn bresennol a chael eu clywed; mae'n cynnwys gwrandawriad a gynhelir yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyswllt fideo, ar y teleffon neu drwy ddull arall o gyfathrebu electronig dwyffordd disymwth.</p>
Yr Uchel Lys” (“ <i>the High Court</i> ”)	<p>Mae cyfeiriadau, yn rheolau 51 a 52, at yr Uchel Lys yn cynnwys, mewn perthynas ag unrhyw apeliadau pellach oddi wrth yr Uchel Lys neu'r Llys Apêl, y Llys Apêl neu'r Goruchaf Lys, yn ôl y drefn;</p>
Ieithoedd y Tribiwnlys (“ <i>languages of the Tribunal</i> ”)	<p>Y Gymraeg a'r Saesneg.</p>
Y Mesur” (“ <i>the Measure</i> ”)	<p>Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.</p>
Hysbysiad cais (“ <i>notice of application</i> ”)	<p>Gweler Cyfarwyddyd Ymarfer 1.</p>
Sylwadau llafar” (“ <i>oral representations</i> ”)	<p>Tystiolaeth sy'n cael ei roi, oherwydd amhariad ar leferydd neu glyw, gan berson sy'n defnyddio iaith arwyddion.</p>
Parti” (“ <i>party</i> ”)	<p>Y ceisydd, y Comisiynydd neu barti sy'n cael ei ychwanegu o dan reol 35.</p>
Cyfarwyddiadau ymarfer (“ <i>practice directions</i> ”)	<p>Gweler yr esboniad ar y dudalen Gweithdrefnau'r Tribiwnlys.</p>
Llywydd (“ <i>President</i> ”)	<p>Llywydd y Tribiwnlys sydd wedi cael ei benodi o dan adran 120 o'r Mesur.</p>
Cofrestr” (“ <i>Register</i> ”)	<p>Y gofrestr y mae'n ofynnol ei chadw o dan reol 58.</p>
Y Rheolau (“ <i>the Rules</i> ”)	<p>Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015</p>
Ysgrifennydd y Tribiwnlys” (“ <i>Secretary of the Tribunal</i> ”)	<p>Y person sydd am y tro yn gweithredu fel Ysgrifennydd swyddfa'r Tribiwnlys.</p>
Y Tribiwnlys (“ <i>the Tribunal</i> ”)	<p>Tribiwnlys y Gymraeg neu unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau'r Tribiwnlys yn unol â'r Rheolau hyn.</p>
Panel tribiwnlys (“ <i>tribunal</i> ”)	<p>Panel o aelodau'r Tribiwnlys sydd wedi cael ei benodi'n</p>

<i>panel</i>)	unol â rheol 9.
Gwŷs tyst (“ <i>witness summons</i> ”)	Y ddogfen sydd wedi ei dyroddi gan y Tribiwnlys sy’n ei gwneud yn ofynnol bod tyst yn bresennol mewn gwrandawriad i roi tystiolaeth neu ddangos dogfennau mewn perthynas â chais i’r Tribiwnlys;
Diwrnod gwaith” (“ <i>working day</i> ”)	Unrhyw ddiwrnod ac eithrio— <ul style="list-style-type: none"> a) dydd Sadwrn, b) dydd Sul, c) unrhyw ddiwrnod o 25 Rhagfyr i 1 Ionawr yn gynwysedig, d) dydd Gwener y Groglith, neu e) diwrnod sy’n ŵyl banc yng Nghymru o dan adran 1 o Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971.